Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Ceredigion
**Cyngor Sir Ceredigion**
**Penmorfa**
**Aberaeron**
**Ceredigion**
**SA46 0PA**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2014**

# Cyd-destun

## Addysg

Ceredigion sydd ag un o'r cyfraddau uchaf yng Nghymru o oedolion oedran gweithio sy'n gymwys hyd at lefel dau, sydd gyfwerth â graddau TGAU A*-C. Mae canran yr oedolion oedran gweithio sydd â chymwysterau ar lefel 4+ y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC) wedi codi'n raddol er 2001, ac mae'r sir ymhlith y pum ardal awdurdod lleol uchaf yng Nghymru ar gyfer y dangosydd hwn. Mae gan y sir un o'r cyfraddau isaf o oedolion heb unrhyw gymwysterau.

## Economi a chyflogaeth

Mae cyfran uwch o weithwyr ym maes gweinyddu cyhoeddus yng Ngheredigion nag yng Nghymru gyfan, ac mae dros 20% o weithwyr yn gweithio ym maes cyfanwerthu, manwerthu, cludiant, gwestai a bwyd. Yn 2013, £494 oedd yr enillion wythnosol cyfartalog yng Ngheredigion. Hwn oedd y chweched isaf ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Yn 2012, 60.3% oedd y gyfradd cyflogaeth yng Ngheredigion. Y gyfradd hon oedd yr isaf ond un ymhlith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, gan Geredigion y mae un o'r cyfraddau isaf o bobl yn hawlio budd-daliadau yn gysylltiedig â diweithdra. Y gyfradd yn hawlio budd-daliadau yng Nghanolbarth Cymru yn Rhagfyr 2013 oedd 1.7% o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed. Roedd hyn ymhell islaw cyfartaledd Cymru, sef 3.3%. Fodd bynnag, roedd y gyfradd sy'n anweithgar yn economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yng Nghanolbarth Cymru yn cyfrif am 22.0% o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed yn y flwyddyn hyd at Fedi 2013 ac roedd uwchlaw cyfradd Cymru, sef 21.4%.

## Iechyd a lles

Yng Ngheredigion, roedd disgwyliad oes i ddynion ar gyfer 2010-2012 yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r disgwyliad oed i fenywod oedd yr uchaf ar y cyd yng Nghymru. Roedd canran yr oedolion gordew yn y sir ar gyfer 2011 a 2012 yn is na chyfartaledd Cymru ac nid oedd canran yr ysmygwyr sy'n oedolion yn wahanol iawn i gyfartaledd Cymru.

## Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Ceredigion (CACLP)

Cynrychiolir y sefydliadau canlynol ar y Grŵp Partneriaeth Dysgu:

- Prifysgol Aberystwyth;
- Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion;
- Cyngor Sir Ceredigion;
- Coleg Ceredigion;
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant;
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru; a
- Fferm Denmark.

Mae'r mynychwyr eraill yn cynnwys Cydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn Ceredigion, Swyddog Datblygu Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol De Orllewin Cymru a chynrychiolwyr o U3A, Want2Work, Tai Ceredigion, y Gymdeithas Gofal a Gwasanaethau Dysgu Cyngres yr Undebau Llafur. Mae tri o'r aelodau yn cael cyllid uniongyrchol Dysgu Oedolion yn y Gymuned gan yr Adran Addysg a Sgiliau i gefnogi cyflwyno yn y gymuned: Dysgu Bro, sef y prif ddarparwr, Coleg Ceredigion a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru.

Cefnogir y Bartneriaeth gan dri is-grŵp:

1. Cwricwlwm ac Ansawdd;
2. Medrau Sylfaenol a'r Rhwydwaith SSIE; a
3. Grŵp Gwyliau Dysgu (Wythnos Dysgwyr sy'n Oedolion ac ymgyrchoedd Ymunwch Nawr).

Y prif ddarparwyr, a ariennir gan yr Adran Addysg a Sgiliau, yw Cyngor Sir Ceredigion (53%), Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru (21%), Coleg Ceredigion (16%) a Choleg Cymunedol YMCA, Cymru (10%).

Yn ychwanegol, mae'r Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cyflwyno ystod eang o ddosbarthiadau dysgu oedolion rhan-amser mewn lleoliadau cymunedol ledled Ceredigion, yn ogystal ag ar ei safleoedd ei hun yn Aberystwyth. Mae'r rhaglen yn cynnwys cyrsiau mewn celf a dylunio, ysgrifennu creadigol, ieithoedd modern, hanes teuluol, gwyddoniaeth a seicoleg. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth hon y tu allan i gwmpas yr arolygiad hwn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Bernir bod perfformiad presennol y bartneriaeth yn dda oherwydd:

- mae dysgwyr yn cyflawni safonau da. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cyflawni'n dda yn eu dosbarthiadau ac yn datblygu medrau a dealltwriaeth dda yn eu pwnc;
- mae bron pob un o'r dysgwyr yn frwdfrydig ynglŷn â'r pynciau y maent yn eu hastudio ac maent wedi eu cymell yn dda;
- mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn cynnig ystod dda o raglenni a llwybrau dilyniant clir sy'n bodloni anghenion dysgwyr a'r gymuned yn dda;
- mae cyfleoedd da i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth;
- mae'r bartneriaeth yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol;
- mae addysgu yn dda ar draws y bartneriaeth; ac
- mae partneriaeth Ceredigion yn gweithio'n dda gyda phartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned eraill ledled De Orllewin Cymru i gynllunio dulliau rhanbarthol ar gyfer datblygu staff a chynllunio'r cwricwlwm.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r bartneriaeth yn dda oherwydd:

- mae'r bartneriaeth wedi gwella'i threfniadau ar gyfer sicrhau ansawdd ers yr arolygiad diwethaf;
- mae'r bartneriaeth yn cynnal arsylwadau effeithiol o addysgu, sydd wedi gwella ansawdd arsylwi addysgu a hunanasesu. Mae'n gweithio'n dda gyda phartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin i roi proses arsylwi tiwtoriaid ar y cyd ar waith;
- mae'r holl bartneriaid yn cymryd rhan mewn datblygu cynllun cyflwyno'r bartneriaeth;
- mae'r bartneriaeth wedi creu lefel dda o gyfathrebu a chydweithredu rhwng ei haelodau;
- mae hunanasesiad y bartneriaeth yn rhoi golwg gywir o gryfderau a meysydd i'w gwella;
- mae'r bartneriaeth yn defnyddio'i chyllid yn effeithiol, gan gynnwys cyllid allanol, i wella'i darpariaeth i ddysgwyr; ac
- mae'r bartneriaeth wedi rhoi'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf ar waith.

Fodd bynnag:

- nid yw cynlluniau'r bartneriaeth yn defnyddio targedau ar gyfer gwella yn ddigon da i fonitro ac adolygu cynnydd yn erbyn targedau yn ddigonol; ac
- nid yw'r bartneriaeth yn defnyddio gwybodaeth am ddeilliannau cyrsiau a dysgwyr yn ddigon da i gynllunio ar gyfer gwella.

## Argymhellion

A1 Gosod cerrig milltir a thargedau clir i fonitro ac arfarnu effaith y bartneriaeth

A2 Gwella'r defnydd o wybodaeth am ddeilliannau cyrsiau a dysgwyr i gynllunio ar gyfer gwella

A3 Gwella'r cymorth i ddysgwyr ymgymryd ag asesiadau yn Gymraeg

A4 Rhoi systemau ar waith i fonitro effaith cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn gwneud cynnydd da

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd arolygydd arweiniol y sector ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn ymweld â'r bartneriaeth ymhen rhyw flwyddyn i fonitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae dysgwyr yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd da yn eu pynciau.

Yn 2011-2012, 84.1% oedd y gyfradd llwyddiant mewn safonau a gyflawnwyd gan ddysgwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Ngheredigion. Roedd hyn dri phwynt uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y sector. Fodd bynnag, roedd cyfraddau llwyddiant y bartneriaeth wedi gostwng dri phwynt canran o 2010-2011. Gostyngodd cyfraddau cwblhau dysgwyr yn yr un cyfnod hefyd o un a hanner pwynt canran i 92%, sef yr un fath â'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae data'r bartneriaeth ar gyfer 2012-2013 sydd heb ei gysoni yn dangos gwelliant ar ddeilliannau'r flwyddyn flaenorol.

Mae grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn cyflawni deilliannau da ar y cyfan. Mae dysgwyr o ardaloedd difreintiedig sy'n mynychu dosbarthiadau yng Ngheredigion yn llwyddo'n dda o gymharu â dysgwyr o ardaloedd tebyg ledled Cymru. Maent hefyd yn llwyddo ychydig yn well na dysgwyr eraill yng Ngheredigion. Cyflawnodd dysgwyr gwrywaidd yng Ngheredigion gyfraddau llwyddiant gwell yn 2011-2012 na dynion mewn rhannau eraill o Gymru, er iddynt gwblhau eu cyrsiau ar gyfradd ychydig yn is. Cyflawnodd dysgwyr gwrywaidd yng Ngheredigion gyfraddau llwyddiant gwell na dysgwyr benywaidd yng Ngheredigion yn 2011-2012 hefyd, o bron i bum pwynt canran, a oedd yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fe wnaeth dysgwyr benywaidd yng Ngheredigion gyflawni cyfraddau llwyddiant ychydig yn well na menywod eraill yng Nghymru yn 2011-2012, ond fe wnaethant gwblhau eu cyrsiau ar gyfradd ychydig yn is na menywod eraill.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cyflawni'n dda yn eu dosbarthiadau ac yn datblygu medrau a dealltwriaeth dda yn eu pwnc. Mae dysgwyr y mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn newydd iddynt yn dysgu ymgyfarwyddo â chyfrifiaduron yn fuan. Maent yn dysgu sut i'w defnyddio yn gyflym i ymgymryd â busnes personol, fel bancio ar-lein, e-bost, a chadw mewn cysylltiad â pherthnasau a ffrindiau trwy gyfryngau cymdeithasol. Mae dysgwyr eraill mewn TGCh yn mewnbynnu a golygu testun yn dda; maent yn gwneud defnydd da o daenlenni i brosesu data. Mae dysgwyr sy'n astudio cyrsiau delweddu digidol yn llunio ffotograffau yn dda ac yn golygu a gwella ffotograffau hanesyddol. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn tynnu ffotograffau o safon uchel ac yn eu harddangos ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol y darparwr.

Mae dysgwyr ar gyrsiau llythrennedd yn cyflawni'n dda. Maent yn datblygu medrau darllen a deall da, yn gwella'u dealltwriaeth o sut i ysgrifennu at wahanol ddibenion ac yn cynhyrchu gwaith da yn y dosbarth. Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau rhifedd yn gwella eu dealltwriaeth o sut i gymhwyso medrau ariannol mewn sefyllfaoedd bob dydd er mwyn gosod cyllidebau a dadansoddi costau. Mae dysgwyr eraill yn dysgu sut i ddefnyddio arian i brisio eitemau a gwneud eu siopa. Mae dysgwyr mewn

Blodeuwriaeth yn datblygu medrau dylunio da ac yn dangos dealltwriaeth dda o ffurf, lliw a gwead.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da i fathau eraill o addysg neu gyflogaeth. Er enghraifft, aeth dysgwr TGCh a gwblhaodd y Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd (ECDL) ymlaen i ddilyn Tystysgrif mewn Addysg, ac mae wedi cael swydd fel tiwtor TGCh ers hynny. Enillodd dysgwr TGCh arall gymhwyster prosesu geiriau RSA a alluogodd iddi gael swydd yn y GIG fel gweinyddwr. Ers hynny, mae hi wedi symud ymlaen i fod yn ysgrifennydd meddygol ar gyfer y bwrdd iechyd lleol. Aeth dysgwr a fynychodd ddosbarthiadau gweithdy cerddoriaeth Dysgu Bro a gwaith coed yng Ngholeg Ceredigion ymlaen i fynychu cwrs adeiladu gitarau yn Dysgu Bro. Ar ôl hyn, sefydlodd gwmni sy'n creu ac yn gwerthu gitarau teilwredig. Mae dysgwr medrau hanfodol sy'n cynnal ei fusnes mecaneg ei hun yn gallu gwneud ei waith papur yn well.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud defnydd da o'r Gymraeg er mwyn dysgu yn y pynciau a ddewiswyd ganddynt. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn TGCh yn cynnal a chreu eu gwaith yn Gymraeg ac yn ymgymryd ag asesiad yn Gymraeg. Mae dysgwyr mewn blodeuwriaeth yn trafod eu gwaith yn Gymraeg ac yn rhoi adborth defnyddiol i'w gilydd.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn frwdfrydig ynglŷn â'r pynciau y maent yn eu hastudio. Maent yn mynychu dosbarthiadau yn rheolaidd ac mae cyfraddau cwblhau yn cyd-fynd â meincnodau cenedlaethol. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae llawer o ddysgwyr yn siarad Cymraeg fel mamiaith ac maent yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ochr yn ochr â'r Saesneg fel y cyfrwng dysgu. Mae hyn yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith pob dysgwr.

Mae bron pob un o'r dysgwyr wedi eu cymell yn dda ac maent yn cymryd rhan lawn mewn gweithgareddau dosbarth. Maent yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd, ac yn helpu i ddatblygu syniadau ei gilydd trwy roi sylwadau ystyriol. Maent yn ystyried sylwadau tiwtoriaid yn effeithiol, ac o ganlyniad, yn gwneud cynnydd cyson. Mewn dosbarthiadau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), mae dysgwyr yn helpu ei gilydd i wella eu medrau siarad trwy ddefnyddio Saesneg yn gyson trwy gydol y sesiwn.

Mae gan bron pob un o'r dysgwyr ymwybyddiaeth dda o faterion diogelwch sy'n gysylltiedig â'u pwnc. Mewn dosbarthiadau TGCh, mae dysgwyr yn dangos dealltwriaeth dda o faterion diogelwch ar y rhyngrwyd, ac mewn blodeuwriaeth mae dysgwyr yn cymryd gofal priodol wrth ddefnyddio a storio offer miniog. Mewn dosbarthiadau cadw'n heini ar gyfer pobl dros hanner cant oed, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o'r modd y mae symud yn helpu i gynnal ffitrwydd, cydbwysedd a chydsymud.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn magu hyder ac yn meithrin hunan-barch trwy addysgu'r medrau y maent wedi eu dysgu i aelodau o'u teulu a'u ffrindiau. Mae llawer o ddysgwyr hŷn yn gwerthfawrogi'r dosbarthiadau cyswllt cymdeithasol a ddarperir yn fawr. Maent yn defnyddio medrau TGCh a ddysgwyd yn ddiweddar i

helpu i gynnal chwimder eu meddwl a'u hannibyniaeth, ac i leihau'r unigrwydd posibl a ddaw yn sgil byw mewn cymuned wledig.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r bartneriaeth yn cynnig ystod eang o raglenni a llwybrau dilyniant clir sy'n bodloni anghenion dysgwyr a'r gymuned yn dda. Cynigir darpariaeth ddysgu mewn canolfannau hygyrch ar hyd a lled ardal ddaearyddol eang. Yn ogystal â'r ddarpariaeth a ariennir gan yr Adran Addysg a Sgiliau, mae Prifysgol Aberystwyth yn cyflwyno ystod eang iawn o ddosbarthiadau dysgu oedolion mewn lleoliadau cymunedol yng Ngheredigion ac ar ei safleoedd ei hun yn Aberystwyth.

Mae'r bartneriaeth yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'n gwneud defnydd da o wybodaeth am y farchnad lafur i gynllunio'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r bartneriaeth yn trefnu cyrsiau penodol i ddysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth yn darparu medrau hanfodol a rhaglenni medrau meddal i ddysgwyr ar brosiect COASTAL sy'n gwella eu rhagolygon am waith. Mae'r bartneriaeth yn cyflwyno SSIE mewn ardaloedd daearyddol penodol hefyd i wneud yn siŵr bod y ddarpariaeth yn hygyrch i ddysgwyr. Mae'r bartneriaeth wedi cynyddu'r ddarpariaeth ddysgu yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y sir yn y blynyddoedd diwethaf hefyd.

Mae partneriaeth Ceredigion yn gweithio'n dda gyda phartneriaethau eraill ar hyd a lled De Orllewin Cymru i gyflwyno prosiect medrau hanfodol. Mae'n trefnu darpariaeth dda ar gyfer dysgwyr yn y gweithle ac yn y gymuned i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae mwyafrif y dysgwyr ar gyrsiau medrau sylfaenol a medrau hanfodol yn mynd ymlaen i gyrsiau lefel uwch.

Mae'r bartneriaeth yn ymateb yn dda iawn i anghenion dysgwyr hŷn. Mae'n darparu cyrsiau rhagflas a chyrsiau byr, gan helpu dysgwyr hŷn i gymryd rhan mewn ystod o gyrsiau gwahanol cyn penderfynu ar y cwrs mwyaf priodol i fodloni eu hanghenion a'u diddordebau. O ganlyniad, roedd llawer o ddysgwyr hŷn ar y rhaglen eleni yn ymrestriadau newydd. Mae'r bartneriaeth a chydlynydd pobl hŷn Ceredigion yn gweithio'n dda i drefnu cyrsiau medrau bywyd ar gyfer pobl hŷn sydd wedi colli eu partneriaid, fel coginio, cynnal a chadw cartref, a rheoli cyllid. Yn yr un modd, fe wnaeth y bartneriaeth a Chymdeithas y Byddar gynllunio cyrsiau mewn Iaith Arwyddion Prydain a gwefusddarllen.

Mae'r bartneriaeth yn gwrando'n dda ar ddysgwyr. O ganlyniad, mae'n aml yn newid amseroedd a lleoliadau cyrsiau i roi ystyriaeth dda i anghenion gofal plant, oriau gwaith ac amseroedd bysiau. Mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (CAG) wedi helpu dysgwyr yn Llanbedr Pont Steffan i sefydlu grŵp dysgwyr newydd. Mae CAG yn cyflwyno cyrsiau Menter Gymdeithasol yn Llanbedr Pont Steffan, a chyrsiau crefft, ailgylchu a gwnïo i helpu dysgwyr i sefydlu Cwmni Crefftwyr ar y Cyd a Chaffi Gwnïo.

Mae'r bartneriaeth wedi cynyddu ei darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau yn ymgorffori'r dimensiwn Cymreig yn dda erbyn hyn. Mae tiwtoriaid a dysgwyr yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg i

drafod ystod o faterion pwnc lle bo'n briodol. Mae'r bartneriaeth yn cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr gael eu hasesu yn Gymraeg. Mae'r bartneriaeth yn cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr gael eu hasesu yn Gymraeg. Fodd bynnag, prin yw'r dysgwyr sy'n dewis cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig rhai cyrsiau, gan gynnwys TGCh a blodeuwriaeth, sy'n darparu cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr gynyddu eu hymwybyddiaeth o addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE) a thechnoleg amgen.

**Addysgu: Da**

Mae addysgu yn dda ar draws y bartneriaeth. Mae tiwtoriaid yn cynllunio eu gwersi'n dda. Mae tiwtoriaid yn gwneud defnydd da o ganlyniadau asesiadau cychwynnol eu dysgwyr ac yn cynllunio eu gwersi i fodloni anghenion y dysgwyr yn eu grwpiau. Mewn rhai achosion, mae tiwtoriaid yn darparu gwersi manwl a hynod unigoledig i ddysgwyr ag anghenion penodol. Maent yn ymateb yn dda i geisiadau a diddordebau personol dysgwyr. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw tiwtoriaid yn herio'r dysgwyr mwyaf abl yn ddigon da.

Mae gan diwtoriaid wybodaeth bynciol dda ac mae ganddynt gymwysterau da. Maent yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu gan gynnwys gwaith pâr, gwaith grŵp a dysgu unigol. Mae cyflymder gwersi yn dda ar y cyfan. Mae tiwtoriaid yn esbonio testunau a syniadau yn dda. Defnyddiant enghreifftiau perthnasol i helpu dysgwyr i ddeall y pwnc. Mewn dosbarthiadau SSIE, mae tiwtoriaid yn modelu'r defnydd o iaith yn effeithiol. Mewn dosbarthiadau llythrennedd a rhifedd, mae tiwtoriaid yn defnyddio enghreifftiau diddorol i wneud dysgu yn fwy perthnasol i ddysgwyr.

Mae ansawdd adnoddau addysgu yn dda ar y cyfan. Mae tua hanner y tiwtoriaid yn lanlwytho deunyddiau ar y rhyngrwyd er mwyn i ddysgwyr allu defnyddio deunyddiau gwersi y tu allan i'r dosbarth. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae tiwtoriaid yn gwneud defnydd gormodol o lungopïau o ansawdd gwael. Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn defnyddio technoleg yn dda i ychwanegu amrywiaeth at eu haddysgu, gan gynnwys defnyddio clipiau fideo, byrddau gwyn rhyngweithiol a dyfeisiau recordio. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi a arsylwyd, mae tiwtoriaid yn colli'r cyfle i ddefnyddio technoleg i wella dysgu.

Mae pob tiwtor yn defnyddio ystod o ddulliau asesu i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn deall ac i wirio eu cynnydd. Maent yn cynnig adborth llafar da i ddysgwyr wrth iddynt weithio. Bron ym mhob achos, mae tiwtoriaid yn marcio gwaith yn rheolaidd ac yn rhoi adborth ysgrifenedig buddiol. Mae hyn yn helpu dysgwyr i weld ble maent wedi gwneud camgymeriadau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Yn yr achosion gorau, mae adborth ysgrifenedig yn hynod fanwl a thrylwyr. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cadw cofnodion da o gynnydd dysgwyr.

Mae tiwtoriaid yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Mae tiwtoriaid sy'n siarad Cymraeg yn cyfathrebu gyda dysgwyr yn Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae bron pob tiwtor yn defnyddio termau ac ymadroddion Cymraeg fel rhan naturiol o'u haddysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan y bartneriaeth bolisïau a systemau da ar waith i gefnogi iechyd a lles dysgwyr. Mae darparwyr yn cynnwys iechyd a lles yn y cyrsiau y maent yn eu cyflwyno i ddysgwyr, er enghraifft dosbarthiadau fel cadw'n heini ar gyfer pobl dros hanner cant oed a Garddio trwy Rifau. O ganlyniad, dywed dysgwyr eu bod yn teimlo'n iachach ac yn fwy ymwybodol o fanteision ffyrdd iachach o fyw.

Mae gan y bartneriaeth systemau addas ar waith i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth ehangach sydd ar gael iddynt.

Mae llawer o ddysgwyr sy'n oedolion yn dod i wybod am eu cyrsiau trwy bamffledi a'r rhyngrwyd. Mae'r bartneriaeth yn gwneud defnydd da o gyfryngau cymdeithasol i hysbysebu cyrsiau a chyflawniad dysgwyr. Fodd bynnag, nid oes dull ar y cyd o hysbysebu cyrsiau ac ni all dysgwyr ddod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt o un ffynhonnell. Mae'r bartneriaeth wrthi'n gweithio gyda phartneriaethau dysgu oedolion eraill ar hyd a lled De Orllewin Cymru ar hyn o bryd i sefydlu cyfleuster ar-lein i hysbysebu cyrsiau.

Mae pob un o'r darparwyr wedi rhoi prosesau ymsefydlu da yn eu lle. Mae llawlyfrau cyrsiau yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ddysgwyr am gymorth ychwanegol. Mae darparwyr yn defnyddio prosesau asesu yn dda i nodi dysgwyr sydd angen cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Mae darparwyr yn gwneud addasiadau priodol ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys darparu offer arbennig a gwneud addasiadau. Mae dysgwyr yn cyflawni'n dda o ganlyniad.

Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae Adran Addysg Barhaus yr awdurdod lleol wedi datblygu pecyn hyfforddi Polisi Diogelu. Mae'r awdurdod lleol wedi rhannu hyn gyda phob darparwr yn y bartneriaeth a phartneriaethau Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae pob aelod o staff ar draws y bartneriaeth wedi ymgymryd â'r hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o weithdrefnau adrodd. Mae partneriaeth Sir Gaerfyrddin wedi cyflwyno'r hyfforddiant i'w staff hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid wedi ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth medrau sylfaenol. O ganlyniad, gallant nodi dysgwyr ag anghenion medrau sylfaenol yn well a'u cyfeirio at raglenni sy'n helpu dysgwyr i wella eu medrau sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn monitro effaith cymorth medrau sylfaenol yn ddigon da i wirio a yw hyn yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd da.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan y bartneriaeth ddiwylliant clir o gynhwysiant. O ganlyniad, mae dysgwyr o ystod o gefndiroedd yn cymryd rhan mewn cyrsiau. Mae'r bartneriaeth yn cefnogi dysgwyr hŷn a dysgwyr ag anghenion penodol yn llwyddiannus hefyd. Fodd bynnag, mae dynion yn cynrychioli 30% o garfan y dysgwyr. Mae hyn ychydig yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol. I wella hyn, mae partneriaid wedi ailystyried yr hyn y maent yn ei gynnig ac yn cynnal cyrsiau penodol i recriwtio mwy o ddysgwyr sy'n ddynion, er enghraifft dosbarthiadau hanes teuluol a dosbarthiadau creu gitarau.

Mae'r holl uwch staff a thiwtoriaid yn annog ethos o gynwysoldeb a pharch. Mae hyn yn creu agwedd gadarnhaol ymhlith staff a dysgwyr ym mhob dosbarth, ac mae'n gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o amrywiaeth yn dda.

Mae'r bartneriaeth wedi cynnal gwiriad systematig o'i hadeiladau i asesu eu haddasrwydd ar gyfer dysgwyr ag anawsterau ac anableddau. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio ystod eang o leoliadau cymunedol ac adeiladau coleg, sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar draws y bartneriaeth i fynychu dosbarthiadau yn agos at ble maent yn byw.

Mae ansawdd bron pob un o'r lleoliadau yn dda. Mae pob un o'r staff a'r tiwtoriaid yn gwneud yn siŵr bod ystafelloedd dosbarth yn gyfeillgar a chroesawgar. Mae llawer o leoliadau yn cynnwys arddangosfeydd diddorol, sy'n aml yn adlewyrchu gwaith dysgwyr yn dda. Fodd bynnag, cynhelir ychydig iawn o ddosbarthiadau mewn adeiladau cyfyng.

Mae'r bartneriaeth yn rheoli ei hadnoddau yn dda. Mae safon adnoddau dysgu yn dda bron ym mhob un o'r lleoliadau, ac fe geir cyfleusterau technoleg gwybodaeth da. Mae wedi prynu llechi a gliniaduron ychwanegol yn ddiweddar, a gall tiwtoriaid eu benthyca i'w defnyddio mewn lleoliadau gwledig. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn defnyddio ystod effeithiol o adnoddau i annog y dysgwyr i gymryd rhan. Fodd bynnag, mae problemau o ran cysylltedd a gosodiadau diogeledd y cyngor ei hun yn atal rhai cymwysiadau rhag cael eu cyflwyno mewn dosbarthiadau TGCh.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Ceredigion yn cyfeirio'n dda at y bwrdd gwasanaethau lleol yn ei chynlluniau. Mae'r bartneriaeth yn cynnig cyrsiau sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd gan Gynllun Integredig Sengl Ceredigion. Mae cynllun corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion yn darparu cyd-destun defnyddiol i'r bartneriaeth gynllunio ei darpariaeth hefyd.

Mae'r bartneriaeth yn dod ag ystod eang o sefydliadau at ei gilydd, sy'n cynrychioli llawer o grwpiau diddordeb yn y gymuned. Daw aelodau'r bartneriaeth ag ystod dda o arbenigedd i'r bartneriaeth. Ceir lefel dda o gyfathrebu a chydweithrediad rhwng aelodau. Mae cyfarfodydd rheolaidd y bartneriaeth yn rhoi cyfleoedd da i drafod cynnydd partneriaid tuag at eu hamcanion cyflawni. Mae'r trafodaethau hyn yn eu helpu i nodi materion sy'n codi a chynllunio sut i ymateb. Er enghraifft, nododd y bartneriaeth nad oedd digon o ddarpariaeth yn Llanbedr Pont Steffan. O ganlyniad, mae dau bartner wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatblygu rhaglenni galwedigaethol i ddysgwyr yn yr ardal honno.

Fe wnaeth y bartneriaeth gynnwys pob aelod yn dda wrth ddatblygu ei chynllun cyflwyno. Mae hyn wedi helpu'r bartneriaeth i leihau nifer y cyrsiau sy'n cael eu dyblygu. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn ddigon clir am rôl partneriaid ehangach fel Tai Ceredigion, y trydydd sector na phartneriaid addysg uwch wrth gyflwyno dysgu i oedolion. Mae amcanion y cynllun cyflwyno yn rhoi amlinelliad clir o flaenoriaethau'r

bartneriaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon penodol i helpu partneriaid i fonitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir.

Mae'r bartneriaeth yn adrodd i'r Grŵp Gweithredol Dyfodol Cynaliadwy (GGDC), sef y grŵp sy'n gyfrifol am y Cynllun Integredig Sengl. Cyflwynodd y bartneriaeth ei Chynllun Cyflwyno Gwasanaeth i'r GGDC am y tro cyntaf yn Nhachwedd 2013 ac mae'n adrodd ar ei pherfformiad i'r grŵp hwn. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi diffinio cerrig milltir clir na thargedau penodol i helpu'r GGDC i fesur ei effaith ar flaenoriaethau'r bwrdd gwasanaethau lleol.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn adrodd ar berfformiad y bartneriaeth, a'i wasanaeth ei hun, i gyfarwyddwr strategol y cyngor ar gyfer dysgu a phartneriaethau. Mae'r cyfarwyddwr hwn a'r cynghorydd arweiniol ar gyfer addysg yn darparu lefel briodol o her i ddeilliannau'r bartneriaeth. Gyda'i gilydd, maent yn monitro deilliannau'r bartneriaeth ar gyfer dysgwyr yn rheolaidd. Maent yn gweithio gyda phartneriaid unigol mewn agweddau eraill ar eu busnes hefyd. Mae hyn yn golygu y gallant ddylanwadu'n uniongyrchol ar waith partneriaid sy'n cyflwyno dysgu.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r bartneriaeth wedi gwella ei threfniadau ar gyfer sicrhau ansawdd ers yr arolygiad diwethaf. Mae wedi sefydlu pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd, sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynnwys yr holl aelodau. Mae'r pwyllgor wedi cyflwyno gweithdrefnau newydd i'w defnyddio gan bob un o'r partneriaid i ysgogi gwelliant.

Mae'r bartneriaeth yn cynnal arsylwadau effeithiol o addysgu. Mae pob partner yn cymryd rhan mewn arsylwi cyrsiau ei gilydd. Mae pob partner yn cymryd rhan mewn safoni arsylwadau addysgu a barnau terfynol am addysgu. Mae rheolwyr yn arsylwi tiwtoriaid yn rheolaidd ac yn nodi staff sydd angen datblygu fwyaf. Mae rheolwyr yn cynllunio cyfleoedd datblygiad proffesiynol yn dda gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan y broses hon. Mae hyn wedi gwella ansawdd yr addysgu, yr arsylwi a hunanasesu.

Mae'r bartneriaeth wedi gwella'r ffordd y mae'n dadansoddi a defnyddio data yn y tair blynedd diwethaf. Mae'n casglu ystod o wybodaeth lefel uchel a manwl am ei chyrsiau a'u perfformiad. Mae partneriaid yn cyfnewid gwybodaeth am berfformiad ar gronfa ddata a rennir. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da ar gyfer cynllunio strategol nac i gynllunio ar gyfer gwelliant. Nid yw pob rheolwr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i helpu tiwtoriaid i arfarnu a gwella deilliannau dysgwyr.

At ei gilydd, mae hunanasesiad y bartneriaeth yn rhoi barn gywir am gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth yn nodi'r materion allweddol y mae'r bartneriaeth wedi nodi eu bod yn feysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun gwella ansawdd yn gosod targedau penodol ar gyfer gwella nac yn monitro ac arfarnu cynnydd yn erbyn targedau yn ddigon da.

Mae partneriaid unigol yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau dysgwyr am ansawdd y ddarpariaeth, gan ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn cymryd camau i wella'r ddarpariaeth o ganlyniad. Mae darparwyr yn defnyddio ystod o

ddulliau i ddweud wrth ddysgwyr beth y maent wedi'i wneud, gan gynnwys posteri a chardiau 'Dywedoch chi – Gwnaethom ni'. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn defnyddio canlyniadau Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru yn ddigon da i lywio hunanasesu a gosod targedau ar gyfer gwella.

Mae'r bartneriaeth wedi rhoi'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf ar waith. Fodd bynnag, nid yw eto wedi mynd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad i wella gweithdrefnau ar gyfer monitro perfformiad a gwella ansawdd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i drefnu cwricwlwm a darpariaeth a gwneud yn siŵr bod darpariaeth yn cael ei harwain gan y dysgwr ac yn bodloni anghenion dysgwyr. Mae'r bartneriaeth wedi creu brand cryf – 'Caru Dysgu / Love to learn' – i hyrwyddo ei gwaith ar hyd a lled yr ardal.

Mae gan y bartneriaeth nodau ac amcanion clir a gweledigaeth i wneud yn siŵr bod pob oedolyn yng Ngheredigion yn cael cyfleoedd i gyflawni eu llawn botensial. Yn ogystal, mae'n cefnogi uchelgais y cyngor i greu cymuned ddwyieithog hunanhyderus, iach a gofalgar. Mae'r bartneriaeth yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am ddatblygiadau a thrafodaethau yn effeithiol.

Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i rannu adnoddau fel staff, deunyddiau ac offer. Mae partneriaid yn cyfeirio dysgwyr at gyrsiau ei gilydd yn effeithiol i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn gallu manteisio ar ddarpariaeth sy'n bodloni eu hanghenion. Mae partneriaid yn gweithio'n dda gyda chyrff eraill, fel Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol De Orllewin Cymru i sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer eu gwaith.

Mae'r bartneriaeth wedi sefydlu strwythur grwpiau rheoli ac is-grwpiau clir. Mae gan bob un o'r grwpiau a'r is-grwpiau gylch gorchwyl clir. Mae'r holl is-grwpiau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o randdeiliaid. Mae'r bartneriaeth wedi ehangu ei haelodaeth i gynnwys sefydliadau dysgu oedolion nad ydynt yn rhai traddodiadol fel cymdeithasau tai a Phrifysgol y Drydedd Oes (U3A). Mae hyn yn golygu y gall gynllunio darpariaeth ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr. Fodd bynnag, er gwaethaf ei hymdrechion, oherwydd lefelau staffio isel mewn sefydliadau gwirfoddol, nid oes gan y bartneriaeth ddigon o gynrychiolaeth o blith sefydliadau'r sector gwirfoddol.

Mae partneriaeth Ceredigion yn gweithio'n dda gyda phartneriaethau dysgu oedolion eraill ledled De Orllewin Cymru i gynllunio dulliau rhanbarthol ar gyfer datblygu staff a chynllunio cwricwlwm. Yn fwy diweddar, mae wedi ymuno'n ffurfiol â'r partneriaethau yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin i roi proses arsylwi tiwtoriaid ar y cyd ar waith.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan bron un o'r staff gymwysterau da ac mae rhai ohonynt wrthi'n cwblhau eu cymwysterau. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r bartneriaeth wedi cyflogi dau diwtor amser llawn ychwanegol yn ogystal ag aelodau eraill o staff ffracsiynol a rhan-amser.

Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gynllunio a chyflwyno'r rhaglenni dysgu a'u hansawdd ac ar weithdrefnau asesu.

Mae gan y bartneriaeth ddull clir ar y cyd o ddatblygu staff.  Mae ei phroses rheoli perfformiad yn helpu'r bartneriaeth i nodi anghenion hyfforddi staff yn dda.  Mae partneriaid unigol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynnig cyfleoedd priodol i bob aelod o staff wella eu medrau.  Mae'r bartneriaeth wedi creu cysylltiadau da gyda'r partneriaethau yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin i drefnu hyfforddiant ar y cyd i staff.  Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi arfarnu effaith yr hyfforddiant ar addysgu a dysgu eto.

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio ei chyllid yn effeithiol, gan gynnwys defnyddio cyllid allanol, i wella ei darpariaeth ar gyfer dysgwyr.  Mae'n darparu ystod addas o gyrsiau, sy'n cynnwys ffocws clir ar anghenion dysgwyr.  Mae'r bartneriaeth yn adolygu ei hadeiladau a'i lleoliadau yn dda i wella'u hansawdd.

Mae gan bob partner drefniadau priodol yn eu lle i adolygu meintiau dosbarth yn rheolaidd a mynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â niferoedd mewn dosbarthiadau pan fydd angen.  Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw strwythurau ffioedd a rennir o fewn y bartneriaeth, ac nid yw'n darparu system gofrestru ganolog ar-lein chwaith.

Mae deilliannau ar gyfer dysgwyr yn dda ac mae'r bartneriaeth yn darparu gwerth da am arian i'w dysgwyr.

# Atodiad 1

**Ceredigion – Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng Ngheredigion yn ystod 2011-2012, roedd y niferoedd mwyaf o ddysgwyr sy'n oedolion yn dilyn cyrsiau rhan-amser mewn TGCh, yn y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi a SSIE.

**Cwblhau**

Yn 2011-2012, roedd y gyfradd cwblhau gyffredinol ar gyfer Ceredigion ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd cyfraddau cwblhau ar eu gorau yn y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi, sef pedwar pwynt canran uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2011-2012, ac ar gyfradd cwblhau Ceredigion ar gyfer 2010-2011. Fodd bynnag, roedd cyfraddau cwblhau mewn TGCh ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar lefel dau ac ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol yn y lefelau anhysbys. Roedd dau o bob tri dysgwr SSIE yn dilyn cyrsiau lefel mynediad yn 2011-2012 ac fe wnaethant gwblhau eu cyrsiau ychydig uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd y cyfraddau cwblhau hynny ychydig yn is na'r cyfraddau cwblhau yn 2010-2011. Roedd cyfraddau cwblhau mewn 'meysydd pwnc sector eraill' yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol yn y ddwy flynedd ond fe wnaethant ostwng ddau bwynt canran rhwng 2010 a 2012.

**Cyfraddau llwyddiant**

Yn 2011-2012, roedd y safonau a gyflawnwyd gan ddysgwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Ngheredigion ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y sector. Roedd cyfraddau llwyddiant ddau bwynt canran uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol yn 2011-2012, ond roeddent wedi gostwng dri phwynt canran o 2010-2011.

At ei gilydd, fe wnaeth dysgwyr mewn Addysg Sylfaenol i Oedolion (ASO) a SSIE gyflawni cyfraddau llwyddiant a oedd yn cymharu'n dda â'r sector yn 2011-2012. Fodd bynnag, cyflawnodd dysgwyr mewn TGCh gyfraddau llwyddiant is na dysgwyr mewn meysydd eraill.

Fe wnaeth dysgwyr yn dilyn cyrsiau SSIE lefel mynediad gyflawni'n dda iawn, o gymharu â dysgwyr tebyg mewn meysydd eraill, yn 2010-2011 a 2011-2012 fel ei gilydd. Yn yr un modd, cwblhaodd holl ddysgwyr ASO lefel dau eu cwrs yn llwyddiannus yn 2011-2012, o gymharu ag 81% mewn meysydd eraill. Fodd bynnag, ni wnaeth bron i 39% o'r dysgwyr yn dilyn cyrsiau lefel dau mewn TGCh yn 2011-2012 gwblhau eu cwrs yn llwyddiannus o gymharu â 23% o ddysgwyr tebyg mewn meysydd eraill. Yn gyffredinol, fe wnaeth y cyfraddau llwyddiant ar gyfer dysgwyr TGCh ostwng chwech a hanner pwynt canran rhwng 2010 a 2012, o gymharu â gostyngiad yn y cyfartaledd cenedlaethol o 2.3 pwynt canran yn yr un cyfnod.

**Llwyddiant grwpiau gwahanol o ddysgwyr**

Mae dysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Ngheredigion yn llwyddo'n dda o gymharu â dysgwyr o ardaloedd tebyg ledled Cymru, ac maent yn cyflawni canlyniadau ychydig yn well na dysgwyr eraill yng Ngheredigion. Fe wnaeth dysgwyr gwrywaidd yng Ngheredigion gyflawni cyfraddau llwyddiant gwell yn y cyfnod 2010-2012 na dysgwyr eraill gwrywaidd mewn meysydd eraill. Fodd bynnag, yn 2011-2012, cwblhaodd dysgwyr gwrywaidd yng Ngheredigion eu cyrsiau ar lefel ychydig o dan y cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn gyfystyr â gostyngiad mewn cyfraddau cwblhau dynion yng Ngheredigion o 2.3 pwynt canran o 2010-2011, er y bu cynnydd o un pwynt canran yn y cyfartaledd cenedlaethol. Roedd cyfraddau cwblhau dynion ar eu hisaf mewn SSIE yn 2011-2012. Fe wnaeth dysgwyr gwrywaidd yng Ngheredigion gyflawni cyfraddau llwyddiant gwell na dysgwyr benywaidd yng Ngheredigion yn 2011-2012 o bron i bum pwynt canran. Yn genedlaethol, cyflawnodd dynion gyfraddau llwyddiant a oedd ddau bwynt canran uwchlaw cyfraddau llwyddiant dysgwyr benywaidd. Cyflawnodd dysgwyr benywaidd yng Ngheredigion gyfraddau llwyddiant ychydig yn well na menywod eraill yng Nghymru yn y cyfnod 2010-2012, er y bu gostyngiad o bron i bum pwynt canran yn eu cyfraddau llwyddiant yn ystod y cyfnod hwnnw. Cwblhaodd dysgwyr benywaidd eu cyrsiau ar gyfradd debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2011-2012, er bod eu cyfradd cwblhau wedi gostwng ychydig yn 2010-2011. Cynyddodd y cyfartaledd cenedlaethol hanner pwynt canran yn yr un cyfnod. Roedd cyfraddau cwblhau menywod ar eu hisaf mewn TGCh a SSIE yn 2011-2012.

## Atodiad 2

**Boddhad dysgwyr**

Rydym yn defnyddio deilliannau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru i lywio ein holl arolygiadau o addysg a hyfforddiant ôl-16. Arolwg boddhad dysgwyr yw Llais y Dysgwr a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng Ionawr a Chwefror 2013.

Mae'r arolwg yn gofyn ystod o gwestiynau i ddysgwyr am y themâu allweddol canlynol:

- y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a ddarperir iddynt;
- ymatebolrwydd y darparwr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr;
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi; a
- boddhad cyffredinol.

Mae pob thema yn cynnwys ystod o gwestiynau sy'n gofyn i ddysgwyr roi gradd i berfformiad eu darparwr.

Llenwyd yr arolwg gan gant a naw deg o ddysgwyr sy'n oedolion yng Ngheredigion. Roedd 38 o ymatebwyr yn ddynion a 147 o ymatebwyr yn fenywod, sy'n cynrychioli chwarter o ddysgwyr gwrywaidd yn y bartneriaeth a thri chwarter o ddysgwyr benywaidd yn y bartneriaeth. Roedd y dysgwyr yn ddysgwyr hŷn yn bennaf rhwng 45 a 65 oed ac yn hŷn. Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr o gefndiroedd ethnig gwyn a dywedodd ychydig yn llai nag un o bob pump ohonynt eu bod yn cael anawsterau dysgu. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn dilyn cyrsiau mewn TGCh neu mewn 'meysydd dysgu eraill'.

Roedd pum deg naw y cant o ymatebwyr yn ystyried bod y bartneriaeth yn dda iawn ar y cyfan. Mae hyn yn agos at gyfartaledd y sector, sef 60%. Roedd 31% arall yn ystyried bod y bartneriaeth yn dda ar y cyfan. Roedd naw deg pedwar y cant o ymatebwyr yn credu bod eu cwrs yn well na'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl. Mae hyn yn agos at gyfartaledd y sector, sef 95%.

Roedd canran yr ymatebwyr yn rhoi sgôr da iawn i'r bartneriaeth yn cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Lles ac Addysgu a Hyfforddi. Fodd bynnag, roedd canran yr ymatebwyr sy'n ystyried bod y bartneriaeth yn dda iawn islaw'r cyfartaledd ar gyfer gwybodaeth a chyngor, ymatebolrwydd a chymorth a chefnogaeth. Fodd bynnag, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ystyried bod y bartneriaeth yn dda neu'n dda iawn ar draws pob un o'r pum thema hyn, ac roedd 93% o ymatebwyr yn ystyried bod yr addysgu a'r dysgu yn dda neu'n dda iawn.

Roedd canran yr ymatebwyr yn dilyn cyrsiau mewn TGCh a Chelf, y Cyfryngau a Chyhoeddi, a roddodd sgôr da iawn i'r cyrsiau hyn ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd llawer o'r sylwadau air am air gan y dysgwyr hyn ac roedd y meysydd a awgrymwyd i'w gwella am ansawdd y caledwedd, mynediad i'r Rhyngrwyd, dogfennau cyrsiau a chymwysiadau a meddalwedd. Roedd canran yr ymatebwyr ym meysydd Hamdden, Teithio a Thwristiaeth, Ieithoedd, Llenyddiaeth a

Diwylliant a Meysydd Dysgu Eraill a roddodd sgôr da iawn i'r bartneriaeth i gyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae canran yr ymatebwyr sy'n ystyried bod y bartneriaeth yn dda iawn yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol ar draws 10 o'r 21 cwestiwn. Mae ar frig y sector ar gyfer un cwestiwn yn y cwestiwn a osodwyd am ymatebolrwydd. Fodd bynnag, mae'n agos at waelod y sector ar gyfer dau o'r cwestiynau cymorth ac ar gyfer y wybodaeth y mae'n ei darparu am yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr.

Mae'r arolwg hefyd yn dadansoddi ymatebion dysgwyr yn ôl gwybodaeth ddemograffig - rhywedd, oedran, ethnigrwydd ac anabledd. Yn gyffredinol, mae'r bartneriaeth yn cyflawni sgorau 'da iawn' sy'n agos at gyfartaledd y sector, neu'n is, ar gyfer boddhad cyffredinol ar draws y rhan fwyaf o'r ddemograffeg allweddol. Fodd bynnag, mae dysgwyr o dan 25 oed a dysgwyr sy'n 65 oed ac yn hŷn yn rhoi sgorau uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer boddhad cyffredinol. Mae rhai dysgwyr ethnig lleiafrifol yn rhoi sgôr am foddhad cyffredinol sydd ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae canran yr ymatebwyr ar draws y rhan fwyaf o ddemograffeg allweddol sy'n dweud bod eu cyrsiau yn well na'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol, heblaw am ddysgwyr ethnig lleiafrifol lle mae'r ganran ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Liam Kealy | Arolygydd Cofnodol |
| Cefin Arthur Campbell | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Rhian Williams | Arolygydd Tîm |
| Penny Lewis | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Ann Jones | Arolygydd Tîm |
| Sharon Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mari Morgan | Enwebai'r Darparwr |